bosibl mai cynllun posibl ar gyfer y pulpud sydd ar gael yma ac ar y llaw arall efallai ei fod yn llun cywir o bulpud oedd yn cael ei adeiladu yn y Capel Coffa yn Buckenham Square, New Kent Road, Llundain, ar y pryd. Y gwir plaen yw fod y cyfan yn dipyn o ddirgelwch a hynny oherwydd prinder enbyd o wybodaeth am y pulpud.

Mae lle i gredu fod y dryswch hwn wedi bodoli am ganrif o leiaf oherwydd ar ddiwedd cyfres o erthyglau ar John Penry a ymddangosodd yn *Y Diwygiwr* yn ystod 1893 mae'r awdur, y Parch. H. Ivor Jones, Porthmadog, yn holi am y pulpud. Fe gaiff H. Ivor Jones ddweud ei stori:

> '. . . *pan gafwyd cyfle gofynais i Dr Owen Evans, Llundain, a oedd rhywbeth o'r fath yn y "Pilgrim Church" yn y ddinas hono. Yn garedig cyfarwyddodd y Dr fi at weinidog presenol yr Eglwys hono, y Parch. F. Docker, anfonais ato, a derbyniais yr atebiad hynaws a ganlyn . . .*
> *"I have made enquiry, but cannot learn that the original pulpit in our church was the gift of the Welsh Congregational Churches. I say original because some years ago, when galleries were put in the church, the rostrum was enlarged, so that little of the original pulpit remained, but that which remain is of carved oak, and I should think is very handsome; a portion of it is in the Memorial Hall, connected with our church . . ."'*

Gan nad oedd H. Ivor Jones yn hollol fodlon â'r ateb a gafodd gan y Parch. F. Docker fe gysylltodd â'r Parch. D. Griffiths, Conwy (Bethel cyn hynny) i'w holi yntau. Dyma'r ateb a gafodd:

> *'Mewn atebiad i'r eiddoch, y mae genyf i ddweyd, ddarfod i mi yn ystod Ionawr a Chwefror, 1857, droi allan yn unol a chais Cynhadledd Cymanfa y Sir, a gynelid, os da wyf yn cofio, yn Nghaernarfon, rhywbryd yn ystod haf y flwyddyn flaenorol, i gasglu at gael Pulpud Coffadwriaethol i Penry yn yr addoldy newydd y sonir genych am dano. Y meddylddrych oedd cael mân rhoddion lawer o bob parth o Gymru at gael yno bulpud teilwng o goffadwriaeth y merthyr ffyddlawn John Penry. Yn y gynadledd dan sylw siaradai amryw frodyr yn bur wresog . . . Wel, yn unol a dymuniad y frawdoliaeth gelwais mewn un-ar-ugain o leoedd yn Arfon, Lleyn ac Eifionydd, fel y dengys y list sydd yn awr o'm blaen . . .'*

Ar ddiwedd ei lythyr noda D. Griffiths iddo gasglu cyfanswm o £7-1-8½ mewn cyfraniadau a amrywiai o 2/- i £1-3-0. Noda hefyd fod gweinidog y 'Pilgrim Church' wedi diolch iddo am yr arian.

Ar sail tystiolaeth llythyr y Parch. F. Docker barnai H. Ivor Jones fod pulpud Penry wedi diflannu o'r Pilgrim Church a adeiladwyd yn ystod gweinidogaeth John Waddington erbyn 1893. Mae'n ddigon posibl iddo gael ei ddinistrio yn ystod cyfnod o ehangu a/neu atgyweirio efallai. Os mai dyna oedd y sefyllfa yna rhaid cyfaddef ein bod wedi colli crair o bwys cenedlaethol a bod cof-adail i Gymro unigryw wedi mynd rhwng y cŵn a'r brain.

Wrth baratoi'r nodiadau hyn sylwais ar gyfeiriad at fodolaeth 'Capel Coffa Penry' yn ninas Lerpwl ond nid oedd amser ar gael i fynd ar ôl yr ysgyfarnog honno ar y pryd. Os oes gan aelodau Cymdeithas Bob Owen neu ddarllenwyr *Y Casglwr* unrhyw wybodaeth am y Capel Coffa yn Lerpwl neu am y Pulpud Coffa yn Llundain, neu unrhyw gofeb arall i John Penry o ran hynny, cofiwch anfon gair at y Golygydd.


# SIOP LYFRAU DYFFRYN DYFI

**6 Heol y Doll, Machynlleth**
**Powys, SY20 8BQ**
**Ffôn: (0654) 703849**

Stoc helaeth o lyfrau ar werth bob amser, gan gynnwys detholiad o deitlau Cymraeg a Chymreig.

Ar agor: Llun – Sadwrn 10.00 – 6.00
Ar gau: Iau
Perchennog: Mrs Barbara Beeby


# EFFEMERA PRINTIEDIG CYMREIG

*Rhagarweiniad*

Mae effemera printiedig yn ddeunydd anodd iawn i'w ddiffinio, ffaith a gydnabyddir gan arbenigwyr megis Maurice Rickards o'r Gymdeithas Effemera. Ar gyfer y prosiect ymchwil hwn (effemera printiedig Cymreig) fe gynhwysir deunydd megis rhaglenni a thocynnau theatrau, deunydd cyhoeddusrwydd canolfan gelfyddydol neu oriel, taflenni cymunedol neu gylchlythyrau plwyfi ac fe ganolbwyntir ar ddeunydd cyfredol a chyfoes yn hytrach na deunydd hanesyddol. Ac fe gynhwysir deunydd yn y Gymraeg a'r Saesneg (ac unrhyw iaith arall os yn berthnasol) cyn belled â bod y cynnwys o ddiddordeb Cymreig. Felly, fe all deunydd sy'n deillio o'r Gororau Cymreig fod o ddiddordeb dilys.

Er mor anodd diffinio effemera fe welir fod ei gasglu a'i gadw yn ddefnyddiol gan fod adrannau astudiaethau lleol mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn rhoi cryn werth arno. Mae llyfrgellwyr yn ymwybodol fod casglu dogfennau sy'n ymddangosiadol ddibwys a byrhoedlog yn gallu bod yn ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth ac y gall atgyfnerthu'r dystiolaeth a geir mewn ffynonellau mwy ffurfiol megis monograffau a chyfnodolion. Mae casglu'r dystiolaeth ychwanegol yma o newidiadau a datblygiadau cyfoes yn ddull alternatif hefyd ac yn werthfawr ar gyfer haneswyr y dyfodol ac at iws defnyddwyr.

*Prosiect ymchwil*

Mae Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cychwyn prosiect ymchwil dwy flynedd o dan nawdd ariannol Ymddiriedolaeth Leverhulme gyda'r bwriad o ffurfio polisi casglu stoc ar gyfer effemera printiedig Cymreig. Dau brif amcan y prosiect yw:

1. Asesu y polisi presennol o gasglu effemera printiedig yn bennaf mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac amgueddfeydd ac i raddau llai mewn archifdai yng Nghymru.
2. I geisio canfod faint o bolisïau casglu effemera printiedig sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Er mwyn cyrraedd yr amcanion hyn mae'n rhaid yn gyntaf gael diffiniad boddhaol o effemera printiedig Cymreig fel y gellir creu dynesiad cyfesur o gasglu'r deunydd ac yn ail rhaid canfasio llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdai (a sefydliadau eraill perthnasol) i ganfod maint eu casgliadau a'r problemau sy'n gysylltiedig â chasglu'r deunydd, a hefyd sylwadau ynglŷn â'r dull o dderbyn a defnyddio'r effemera, ac ati.

*Methodoleg*

Er mwyn asesu'r sefyllfa bresennol mewn cysylltiad ac effemera printiedig yng Nghymru fe ddefnyddir dau brif ddull:

1. Llunnir holiadur manwl a'i ddosbarthu'n eang yng Nghymru i ganfod faint o gasgliadau o effemera printiedig sydd gan sefydliadau.
2. Fe fydd y Cynorthwywr Ymchwil yn ymgymryd â nifer o ymweliadau personol i lyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdai yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Fe fydd yr ymweliadau hyn yn rhoi cyfle i'r ymchwilydd i weld drosto'i hun rai o'r casgliadau ac i ganfod sut y cânt eu gweinyddu; pa broblemau (os oes rhai) sy'n codi yn eu sgil a bydd hefyd yn gyfle iddo gyfarfod yn bersonol rai o'r staff sydd â chyfrifoldeb am gasglu a rheoli'r deunydd.

*Diddordeb cyhoeddus ac unigol*

Oherwydd natur effemera printiedig a'i atyniad fel dull o gyflwyno darlun gwahanol a llai ffurfiol o'n cymdeithas mae'n bwysig cofio fod gan yr unigolyn brwdfrydig a'r casglwr ran sylweddol i'w chwarae yn y broses o ffurfio polisi casglu yng Nghymru. Mae'r erthygl hon felly wedi ei llunio'n bennaf i dynnu sylw casglwyr unigol ac eraill sydd â diddordeb yn y pwnc ac yn y prosiect.

Felly, gwahoddir unrhyw gasglwr effemera printiedig yng Nghymru yn arbennig os oes ganddo/ganddi ddeunydd o natur gyfredol a chyfoes i gyflwyno unrhyw sylwadau neu i roi manylion am gasgliad(au) i'r Cynorthwy-ydd Ymchwil yn y cyfeiriad isod. Ac mae'n bosibl (os na cheir cais i'r gwrthwyneb) y cynhwysir unrhyw sylwadau neu fanylion a dderbynnir yn yr adroddiad a lunnir maes o law; ac fe gydnabyddir unrhyw gyfraniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad.


P. R. Drew, *Cynorthwy-ydd Ymchwil*
Michael Dewe, *Darlithydd*
*Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth*
*Prifysgol Cymru, Aberystwyth*
*Llanbadarn Fawr*
*Aberystwyth*
*Dyfed SY23 3AS*